COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI A GYNHALIWYD NOS FAWRTH,

12fed RHAGFYR 2023 YN Y GANOLFAN TALYSARN AM 7.00YH

1. Presennol - Ceri Owen (Cad), Judith Humphreys, Barry Bracegirdle (Penygroes), Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts (Llanllyfni) Dafydd Thomas (Nebo) Harry Owen (Talysarn), Cyng Peter Thomas.

Ymddiheuriadau -derbyniwyd ymddiheuriadau gan Justin Davies, Dylan Herbert, Erfyl Williams (Penygroes) Christine Hughes (Llanllyfni), Ffion Jones (Nantlle) Siân Dafydd, Gareth Jones, Peter Bridges (Talysarn).

Adroddodd y gadeiryddes bod Peter Bridges (Ward Talysarn) wedi datgan ei fod am roi ei sedd i fyny ar y Cyngor. Angen i'r clerc roi hysbyseb ar y wefan a chyfrwng cymdeithasol bod sedd wag ar gael yn Ward Talysarn.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y gadeiryddes Ceri Owen.

2. Datgan Buddiant - nid oedd neb yn datgan unrhyw fuddiant yn y materion fydd yn cael ei drafod yn ystod y cyfarfod.

3. Gwadd - Nigel Williams, Cyfeillion Talysarn a Nantlle - croesawyd Nigel i'r cyfarfod a gofynnwyd iddo gyflwyno cais y cyfeillion i'r cyngor cymuned. Esboniodd bod y grŵp hwn wedi ei sefydlu ers Chwefror 2023 a'r bwriad ydi i dacluso'r ardal, datblygu gwaith er mwyn cael pobl allan o'u tai ac i gymdeithasu yn dilyn y cyfnod clo. Mae'n sefydliad dielw ac yn cyd-weithio gydag ysgolion lleol ar ysgolion meithrin. Maent yn cynnal sesiynau paned a sgwrs a hefyd wedi derbyn arian er mwyn creu gardd gymunedol. Roedd wedi mynychu'r cyfarfod heno er mwyn gofyn i'r cyngor cymuned am eu cefnogaeth gyda sefydlu'r ardd a hefyd roedd Cyngor Gwynedd wedi llythyru'r cyngor cymuned i ofyn eu barn. Diolchwyd i Nigel am ddod i'r cyfarfod a trafodwyd y mater gan nodi ei bod yn braf gweld bod ymgynghori wedi bod yn mynd ymlaen a bod pawb i weld yn hapus hefo hyn. Nododd y cyngor cymuned hefyd ei bod yn holl bwysig gwneud yn siŵr bod y sefydliad yn ymgynghori gyda'r tai o amgylch yr ardd am eu barn. Nid oedd dim gwrthwynebiad gan y cyngor cymuned i'r datblygiad hwn ac roedd pawb yn gefnogol yn unfrydol.

4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod 14eg Tachwedd 2023 - cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd – **Tir Cwtin** – yn dilyn holi Un Llais Cymru os oedd ganddynt restr o gyfreithwyr a fuasai yn delio gyda'r mater o greu prydles ayyb ar gyfer hyn, nid oes ganddynt restr. Angen felly chwilio am gyfreithwyr sydd yn arbenigo mewn materion fel hyn. **Golau Nadolig** – braf gweld bod y golau wedi eu gosod ac yn edrych yn dda.

6. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir - yn absenoldeb Cyng Peter Thomas mis diwethaf bu iddo yrru adroddiad o fewn dyddiau wedyn i basio ymlaen i'r cyngor. Diolchwyd iddo am hyn ac am ei adroddiad ar gyfer y mis yma. Gofynnwyd pam bod rhaid cael cyflymder 20mya rhwng Melin Gerrig a chylchdro Penygroes a gofyn a oes modd ei newid nôl i 30mya. Adroddodd bod twmpathau ar y ffordd yn barod ac wedyn bod y rheol 20mya yn dod yn awtomatig.

7. Materion Pentrefi - Llanllyfni - gyliau ar Lôn Ddŵr angen eu glanhau yn enwedig ar ôl y llifogydd heddiw. Baw ci yn ddifrifol ymhob man - gofyn i warden ddod o gwmpas y pentrefi i gyd. **Penygroes -** cerb tu allan i'r Co-op ar y ffordd allan o'r maes parcio yn rhydd ac angen sylw. Cerb o flaen 80 Trem Yr Wyddfa - "drip" o ½ modfedd o flaen y gyrben ac angen sylw. Sbwriel ar Allt Goch - gofyn i'r tîm tacluso ddod allan i'w glanhau. Panel ar y safle bws gyferbyn a'r Co-op wedi ei dynnu ffwrdd - angen gofyn i Designer Signs os oeddynt wedi gosod un yno wrth wneud y gwaith yntau a yw wedi ei falu wedi hynny. **Talysarn** - Ffordd Bryn Celyn yn dyllog ac angen sylw. Cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â'r carafanau a container wedi parcio yn y maes parcio ger y ganolfan. **Nantlle -** adroddodd Cyng Peter Thomas bod y bont wedi malu ar lwybr Turnpike a bod Cyngor Gwynedd wedi ei chau hyd nes bydd yr amserlen gwaith yn caniatáu i'r gwaith gael ei wneud.

8. **Cyfarfodydd is-bwyllgorau / cyfarfodydd yn ystod y mis** – ni chafwyd is-bwyllgorau na chyfarfodydd yn ystod y mis.

9. **Taflen ariannol a chyllid -** roedd pawb wedi derbyn copi o'r gyllideb i edrych drosto - nid oedd dim yn codi. Penderfynwyd gadael trafod y presept hyd nes cyfarfod mis Ionawr. Derbyniwyd e-bost yn dweud na fydd Cyngor Gwynedd yn gyrru anfoneb am y clwb ieuenctid eleni. Teimlad felly yw y dylai'r arian a oedd wedi ei glustnodi ar gyfer hyn gael ei wario ar rywbeth arall - trafod hyn ymhellach mis Ionawr.

10. **Llwybrau a Mynwentydd -** derbyniwyd ymateb gan TJ Construction ynglŷn â'r chwyn yn tyfu trwy'r tarmac ar y ffordd newydd yn Macpela a phenderfynwyd gadael y mater am nawr a chadw golwg ar y sefyllfa. Adroddiad wedi ei dderbyn bod y tap dŵr yn Fynwent Sant Rhedyw wedi torri a dŵr yn gollwng ohono. Clerc wedi cysylltu gyda Eilwyn Hughes am hyn. Penderfynwyd hefyd i ofyn iddo am bris i roi stop tap yno ac insiwleiddio'r tap dan sylw. Wedi derbyn cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â cheffylau yn defnyddio llwybr Lôn Groes - edrych yn debyg mae cilffordd yw hon felly hawl ganddynt ei ddefnyddion - holi Cyngor Gwynedd i gadarnhau ac ymateb i'r gwyn.

11. **Ceisiadau cynllunio** - C23/0891/22/LL - CPD Talysarn Celts - creu cae pêl-droed newydd a chodi sied storio - DIM GWRTHWYNEBIAD.
C23/0962/22/DT - Pen Yr Yrfa, Nebo - dymchwel garej a chodi dau estyniad unllawr ynghyd â newidiadau i eiddo presennol gan gynnwys codi garej ddwbl newydd - DIM GWRTHWYNEBIAD.

12. **Gohebiaeth**

- Cyngor Gwynedd – Porth Timau Tacluso Ardal Ni – ***PAWB I YMATEB I'R HOLIADUR AR HWN.***
- Unllais Cymru – Cymru Can – Strategaeth Cenedlaethau'r dyfodol – DIM YN CODI O HWN.
- Unllais Cymru - Tîm Costau Byw Unllais Cymru - ***TRAFODWYD A CHYNIGWYD Y DYLID CYFRANNU AT RYWBETH LLEOL MEGIS Y BANC BWYD. EILIWYD A PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL I GYFRANNU £150.***
- Llywodraeth Cymru – Rheoli asbestos ar yr Ystâd Gyhoeddus – DIM ADEILADAU GAN Y CYNGOR CYMUNED.
- Parc Cenedlaethol Eryri – Ymgynghoriad ar y strategaeth hamdden – DIM YN CODI O HWN.

15. **Materion ariannol** - cytunwyd i dalu'r pethau ar yr agenda. Nia Jones ffôn a rhyngrwyd £25. Argraffdy M:Art argraffu holiaduron Cwtin £73. Archwilio Cymru ffi archwiliad allanol 2020/21 £200.

Diolchwyd i bawb am fynychu'r cyfarfod a dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal Nos Fawrth, 9fed Ionawr 2023 am 7.00 o'r gloch yn y Ganolfan Talysarn.